# Siarter i Deuluoedd Mewn Profedigaeth trwy Drasiedi Gyhoeddus

Wrth fabwysiadu'r siarter hon rwy'n ymrwymo i sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dysgu gwersi'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig, fel nad yw persbectif y teuluoedd mewn profedigaeth yn cael ei golli.

Ymrwymaf i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddod yn sefydliad sy'n ymdrechu i:

1. Mewn achos o drasiedi gyhoeddus, gweithredu ei gynllun brys a defnyddio ei adnoddau i achub dioddefwyr, i gefnogi'r rhai mewn profedigaeth ac i amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed.

2. Rhoi lles y cyhoedd uwchlaw ein henw da ein hunain.

3. Delio ag achosion o graffu cyhoeddus – gan gynnwys ymchwiliadau cyhoeddus a chwestau – gyda gonestrwydd, mewn ffordd agored a thryloyw, gan ddatgelu dogfennau, deunydd a ffeithiau perthnasol yn llawn. Ein hamcan yw cynorthwyo i chwilio am y gwirionedd. Rydym yn derbyn y dylem ddysgu o ganfyddiadau craffu allanol ac o gamgymeriadau'r gorffennol.

4. Osgoi ceisio amddiffyn y rhai anamddiffynadwy neu ddiystyru neu ddilorni'r rhai a allai fod wedi dioddef lle rydym ni wedi methu.

5. Sicrhau bod pob aelod o staff yn trin aelodau o'r cyhoedd a'i gilydd gyda pharch a chwrteisi. Pan fyddwn yn methu, dylem ymddiheuro'n syml ac yn ddiffuant.

6. Cydnabod ein bod yn atebol ac yn agored i her. Byddwn yn sicrhau bod prosesau ar waith i alluogi'r cyhoedd i'n dwyn i gyfrif am y gwaith a wnawn ac am y ffordd yr ydym yn ei wneud. Nid ydym yn fwriadol yn camarwain y cyhoedd na'r cyfryngau.

Maria Battle

**Maria Battle**
**Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**